Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Meini prawf ar gyfer cwblhau asesiad risg lleol

Gofal cymdeithasol

Mae'r asesiad risg hwn yn seiliedig ar offeryn asesu risg cymunedol NHSEI Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar eu gwaith a'u caniatâd i addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Medi 2024, Fersiwn 2a

## Diben

Cefnogi lleoliadau gofal a chyflogwyr i gynnal asesiad risg lleol yng nghyd-destun rheoli heintiau feirysol anadlol tymhorol gan ganolbwyntio ar y ffliw, SARS-CoV-2 a Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ac unrhyw salwch anadlol acíwt arall (ARI) yn seiliedig ar fesurau fel cânt eu blaenoriaethu yn yr hierarchaeth rheolaethau.(HoC)

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Set o fesurau lliniaru risg wedi'u blaenoriaethu yn y drefn: dileu, amnewid, peirianneg, rheolaethau gweinyddol, a chyfarpar diogelu personol (gan gynnwys cyfarpar diogelu anadlol [RPE]).
- Rhaid i asesiadau risg gael eu cynnal ym mhob maes gan berson cymwys sydd â’r sgiliau, yr wybodaeth, a’r profiad i allu adnabod y peryglon sy’n gysylltiedig â chyfryngau anadlol heintus: gall hwn fod yn gyflogwr, neu’n berson a benodwyd yn benodol i gwblhau’r asesiad risg. Dylid cyfathrebu â gweithwyr yn ystod y broses hon ac ar ôl cwblhau'r asesiad risg.
- Gellir defnyddio'r asesiad risg gorffenedig i lenwi systemau rheoli risg lleol.

| Enw sefydliad y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth | Dyddiad yr asesiad cychwynnol | Enw'r aseswr a theitl y Swydd | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Beth yw'r risgiau a'r peryglon? | Pwy allai fod mewn perygl? | Camau i reoli risg? | Os nad yw'n bosibl dileu'r risgiau, pa fesurau rheoli pellach sydd angen i chi eu cymryd? |
|---|---|---|---|
| **Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol:**<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Defnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr.<br>• Pob aelod o staff<br>• Contractwyr<br>• Pob math o ymwelwyr<br>• Ystyriwch ddefnyddwyr gwasanaeth a staff bregus.<br><br>Agored i Niwed<br><br>diffiniad<br><br>Eithriadol<br><br>diffiniad | **Cwestiynau a awgrymir ar gyfer y cartref er mwyn asesu risg:**<br><br>• Gwiriwch ddiweddariadau briffio Llywodraeth Cymru - Beth yw nifer yr achosion cymunedol o heintiau a'r lefel rhybudd cenedlaethol? – *Mae lefel uwch o drosglwyddiad cymunedol yn cynyddu'r risg o gyflwyno i'r cartref*<br><br>• Beth yw nifer yr achosion positif yn y cartref ar hyn o bryd neu a oes unrhyw frigiad o achosion neu ddigwyddiadau - *a yw'r rhain yn gysylltiedig â dal yr haint yn y cartref?*<br><br>• Gwirio canllawiau cyfredol Atal a Rheoli Heintiau (IPC) a Llywodraeth Cymru ac adolygu anghenion hyfforddi staff – *ystyried llwybrau trosglwyddo pob haint a rhoi arferion IPC priodol ar waith/ystyried nifer y preswylwyr sydd angen gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) a lle gellir cyflawni'r arfer hwn.*<br><br>• Beth yw nifer presennol y preswylwyr sy'n gymwys i gael y brechlyn ar gyfer ffliw, COVID-19, RSV, sydd wedi cael eu brechu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Adolygu gallu gweithredol sefydliadol i reoli achosion, er enghraifft:<br>• A oes lefelau staffio digonol? (absenoldeb a chymysgedd sgiliau)<br>• Beth yw nifer yr ymwelwyr â'r cartref i gofal ac unrhyw weithgareddau/ymweliadau sydd wedi'u cynllunio y tu allan i'r cartref a lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen?<br>• Y gallu i wahanu preswylwyr a staff pan fo haint yn bresennol / brigiad o achosion<br>• A oes adnoddau glanhau digonol?<br>Dylai asesiad risg hefyd ystyried effaith ynysu ar lesiant | |

| Beth yw'r risgiau a'r peryglon? | Pwy allai fod mewn perygl? | Camau i reoli risg | Os nad yw'n bosibl dileu'r risgiau, pa fesurau rheoli pellach sydd angen i chi eu cymryd? |
|---|---|---|---|
| Sefyllfaoedd neu gamau gweithredu a all achosi trosglwyddo haint anadlol e.e. ymweliadau â lleoliadau lle mae lefelau'r haint yn uchel (Ysbytai) neu ddod i gysylltiad ag unigolion heintiedig. | • Fel uchod | **Dileu** (gwaredu'r perygl).<br><br>**Ailgynllunio'r gweithgaredd fel bod y risg yn cael ei ddileu.**<br><br>**Camau lliniaru allweddol** – gwirio bod systemau ar waith i sicrhau:<br><br>•Anogir defnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr i gael eu brechiadau feirws gan gynnwys COVID-19, ffliw, ac RSV (yn unol â chanllawiau cenedlaethol)<br><br>•Bod defnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr yn cael eu hannog i gael eu brechiadau feirws<br><br>•Pan nad yw triniaeth yn frys mewn ysbyty, ystyriwch ohirio unrhyw apwyntiadau ar yr amod nad yw hyn yn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth – neu ystyriwch ddewisiadau rhithwir amgen i gefnogi gofal yn y cartref gan gynnwys ymweliadau cartref.<br><br>• Cyfleu statws heintus y defnyddiwr gwasanaeth/preswylydd cyn unrhyw drosglwyddo i leoliad arall neu ohono (gan gynnwys chwydu, dolur rhydd, twymyn, neu symptomau anadlol)<br><br>**Defnyddwyr Gwasanaeth/preswylwyr:**<br><br>Er mwyn galluogi adnabod haint yn gynnar a chymryd y camau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | angenrheidiol, gwiriwch:<br>• Bod defnyddiwr gwasanaeth/preswylydd wedi'i frechu'n llawn ar gyfer COVID-19, y ffliw, RSV, a heintiau anadlol eraill fel niwmococol a dogfennwch hynny.<br>• A oes unrhyw arwyddion neu symptomau heintiau ac a yw achosion ar yr un llawr<br>• Bod staff yn adnabod symptomau heintiau anadlol.<br><br>Staff<br>• Mae'r staff yn gymwys ac wedi'u hyfforddi mewn mesurau IPC e.e. gwisgo a thynnu offer diogelu personol.<br>• Neilltuir staff i ofalu am breswylwyr heintiedig neu heb eu heintio fesul sifft.<br><br>Ymwelwyr:<br>• yn ymwybodol o symptomau ac i beidio ag ymweld os ydynt yn teimlo'n sâl.<br>• Efallai y bydd cyfyngiadau ar waith yn ystod sefyllfaoedd o frigiad o achosion | |

| Beth yw'r risgiau a'r peryglon? | Pwy allai fod mewn perygl? | Camau i reoli risg | Os nad yw'n bosibl dileu'r risgiau, pa fesurau rheoli pellach sydd angen i chi eu cymryd? |
|---|---|---|---|
| **Trosglwyddo mewn lleoliadau lle mae lefelau'r haint yn uchel** | • Fel uchod | **Amnewid** (disodli'r perygl)<br>**Amnewid y perygl gydag un sy'n lleihau'r risg.**<br>**Camau lliniaru allweddol:**<br>Nid yw hyn yn bosibl i ofal iechyd ei gyflawni gan fod angen cynnal triniaeth, felly mae angen rhoi pwyslais ar y risgiau lliniaru ar reolaethau eraill.<br>Fodd bynnag, efallai y bydd rhai gwasanaethau'n dal i ystyried defnyddio ymgynghoriadau rhithwir (ffôn neu fideo) a chynnig y rhain lle bo'n briodol i ddefnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt haint anadlol.<br>Ystyried ymgynghoriad/cyfarfodydd rhith i ymwelwyr gyda'u hanwyliaid pan allai cyfyngiadau fod ar waith oherwydd brigiad o achosion,<br><br>Gohirio gwaith contractwr nad yw'n waith brys neu hanfodol yn ystod trosglwyddiad cymunedol uchel os nad oes unrhyw effaith ar y gwasanaeth neu'r gofal. | |

| Beth yw'r risgiau a'r peryglon? | Pwy allai fod mewn perygl? | Camau i reoli risg | Os nad yw'n bosibl dileu risgiau, pa fesurau rheoli pellach sydd angen i chi eu cymryd? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI))<br><br>oherwydd awyru gwael/ gorlenwi gwael a ffactorau amgylcheddol eraill | • Defnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr<br>• Staff<br>• Contractwyr | **Peirianneg** (rheoli, lliniaru neu ynysu pobl rhag y perygl).<br><br>Dylunio mesurau sy'n helpu i reoli neu liniaru risgiau, megis awyru, rhwystrau a sgriniau.<br><br>Dylid rhoi blaenoriaeth i fesurau sy'n darparu amddiffyniad ar y cyd yn hytrach na'r rhai sy'n amddiffyn unigolion neu grŵp bach o bobl yn unig.<br><br>Camau lliniaru allweddol:<br>Argymhellir gofyn i beiriannydd ymgynghorol cymwys a phrofiadol edrych ar y cartref gofal ac:<br>• Asesu ffyrdd o wella awyru h.y. asesu a yw unrhyw awyru mecanyddol o fewn cartref yn gweithio'n gywir. A yw'r system awyru (mecanyddol neu gyfunol) yn cydymffurfio â Rhan F y rheoliadau adeiladu https://llyw.cymru/dogfennau-cymeradwy-rheoliadau-adeiladu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Nodi meysydd (gofal a rhai nad ydynt yn ymwneud â gofal) sydd wedi'u hawyru'n wael neu lle mae'r systemau awyru presennol yn annigonol.<br>Gwelliannau<br>• Ystyried ffenestri wedi'u dylunio'n well sydd â mannau agor mwy sy'n darparu awyru trawslif lle bo modd i wella newidiadau aer trwy wanhau.<br>• Agor drysau i'r tu allan os yw'n ddiogel gwneud hynny.<br>• Ystyried gosod awyru mecanyddol mewn ardaloedd cymunedol a thechnolegau glanhau aer i wella ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n wael dim ond ar ôl ymgynghori ag arbenigwr awyru.<br>• Asesu swyddogaeth y maes gofal a sicrhau nad yw gorlenwi yn broblem – yn enwedig os yw cleifion â heintiau anadlol hysbys neu a amheuir yn cael gofal.<br>• Osgoi gofalu am grwpiau o breswylwyr neu gleientiaid mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n wael â haint anadlol hysbys neu a amheuir. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Diffyg systemau/polisi a phrosesau ar waith i atal cyflwyno haint | • Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr<br>• Defnyddwyr Gwasanaeth/preswylwyr | **Rheolaethau gweinyddol** (newid y ffordd y mae pobl yn gweithio).<br><br>Gweithredir rheolaethau gweinyddol ar lefel sefydliadol (e.e. dyluniad a'r defnydd o brosesau, systemau a rheolaethau peirianyddol priodol, a darparu a defnyddio offer a deunydd gwaith addas) i helpu i atal cyflwyno heintiau; ac i reoli a chyfyngu ar drosglwyddo heintiau mewn gofal iechyd.<br><br>**Camau lliniaru allweddol** – gwirio bod systemau ar waith i sicrhau:<br><br>• Y cynhelir sgrinio, brysbennu a phrofi (yn unol â'r canllawiau cenedlaethol Fframwaith profi cleifion ar gyfer hydref/gaeaf 2023 (WHC/2023/037) \| LLYW) i alluogi adnabyddiaeth gynnar o heintiau feirysol anadlol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | tymhorol - SARs-CoV-2, y ffliw, RSV ac unrhyw ARI arall.<br><br>• bod defnyddwyr gwasanaeth yr amheuir bod ganddynt haint anadlol yn cael eu cadw ar wahân<br>• bod addysg a chanllawiau rheoli heintiau priodol yn cael eu darparu i staff, preswylwyr/cleientiaid, contractwyr ac ymwelwyr<br>• darparu gorsafoedd hylendid dwylo ychwanegol (gan gynnwys hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys alcohol) ac arwyddion – i sicrhau arferion hylendid da ymhlith staff, defnyddwyr gwasanaeth, contractwyr ac ymwelwyr.<br>• darparu mannau diogel ar gyfer mannau egwyl staff a chyfleusterau newid.<br>• sicrhau bod trefniadau glanhau rheolaidd yn cael eu dilyn a bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Staff sydd mewn perygl o drosglwyddo haint trwy ddefnynnau, aerosolau a chysylltiadau | • Staff<br>• Preswylwyr/cleientiaid<br>• Contractwyr | **Cyfarpar diogelu personol (PPE)/cyfarpar diogelu anadlol (RPE)** (amddiffyn y gweithiwr â dillad diogelu personol).<br>**Mae gan gyflogwyr rwymedigaeth gyfreithiol - o dan reolaeth Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), i reoli'n ddigonol y risg o ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus pan na ellir atal cysylltiad.**<br><br>**Rhaid gwisgo PPE** pan ragwelir dod i gysylltiad â gwaed/neu hylifau eraill y corff, toriadau yn y croen neu bilenni mwcaidd neu yn unol â Rhagofalon Safonol Atal a Rheoli Heintiau (SICP) a Rhagofalon ar Sail Trosglwyddo (TBPs).<br>**Ystyrir mai PPE yw'r mesur lleiaf effeithiol o'r hierarchaeth rheolaethau. Dylid ystyried PPE yn ychwanegol at yr holl fesurau lliniaru blaenorol yn uwch yn yr hierarchaeth rheolaethau.**<br>**Camau lliniaru allweddol:**<br>Systemau ar waith i sicrhau:<br>• bod cyflenwad digonol ac argaeledd PPE priodol – gan gynnwys RPE os nodir hynny – i ddiogelu staff, preswylwyr/cleientiaid ac ymwelwyr yn unol â SICP a TBPs.<br>• rhaid i'r holl staff y mae'n ofynnol iddynt wisgo RPE, er enghraifft mwgwd FFP3 ar gyfer gweithdrefnau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynhyrchu aerosol, fod wedi'u profi'n ffit (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).<br>• dylai staff yn y lleoliad gofal wisgo masgiau/gorchuddion wyneb yn unol â chanllawiau'r IPC.<br>• mae'r holl staff (clinigol) wedi'u hyfforddi i wisgo, tynnu a gwaredu PPE.<br>• arddangosir nodiadau atgoffa gweledol sy'n cyfleu pwysigrwydd gwisgo masgiau wyneb yn gywir, cydymffurfio â hylendid dwylo a chadw pellter corfforol.<br>• Ar gyfer PPE y gellir ei ailddefnyddio mae cyfleusterau a phrotocolau digonol ar gyfer dihalogi (glanhau, diheintio ac ati). Mae'r PPE yn cael ei storio'n ddiogel ac mae mewn cyflwr gweithio da. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| **Yn dilyn yr asesiad risg hwn, os yw'n amlwg bod risg annerbyniol o drosglwyddo yn parhau ar ôl cymhwyso'r hierarchaeth o reolaethau yn drylwyr, efallai y bydd angen ystyried gwisgo masgiau yn gyffredinol a/neu ddefnydd estynedig o RPE (FFP3) ar gyfer gofal cleifion mewn sefyllfaoedd penodol e.e.** Mesurau Atal a Rheoli Heintiau AGP ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Cymru **Lle nodir hyn, dylai PPE fod ar gael i'r holl staff perthnasol a dylai staff gael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio'n gywir.** | | | |

## Cyfeiriadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mesurau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Cymru

NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru).

Fframwaith profi cleifion ar gyfer hydref/gaeaf 2023 (WHC/2023/037) | LLYW.CYMRU

Cyngor ar feirysau anadlol gan gynnwys COVID-19 i staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: canllawiau | LLYW.CYMRU

Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (WHC/2024/032) [HTML] | LLYW.CYMRU

Y rhaglen genedlaethol imiwneiddio rhag y ffliw 2024 i 2025 (WHC/2024/028) [HTML] | LLYW.CYMRU

Fframwaith feirysau anadlol y gaeaf 2024 i 2025 (llyw.cymru)

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales